# YMWELIADAU SAFLE

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, K P Hughes, Eric Wyn Jones, Bryan Owen a Dafydd Roberts |
| **WRTH LAW:** | Cymhorthydd Cynllunio (OWH), Cymhorthydd Cynllunio (SOH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Vaughan Hughes, Richard Owain Jones, Nicola Roberts, Robin Williams. |
| **HEFYD YN BRSENNOL:** | Aelodau Lleol : Cynghorydd Margaret M Roberts – ar gyfer cais (1); Cynghorwyr Richard Dew a Gwilym O Jones – ar gyfer cais (2). |

---

**1 FPL/2019/31 - CAIS LLAWN AR GYFER NEWID DEFNYDD ADEILAD ALLANOL YN UNED WYLIAU YNGHYD Â GOSOD TANC SEPTIG NEWYDD YN TŶ MAWR, PENTRAETH**

Cyfeiriodd y Cynorthwy-ydd Cynllunio (SOH) at y cais ac fe ddisgrifiodd beth oedd y bwriad yn ei olygu. Roedd yr ymweliad safle yn cael ei gynnal i alluogi gael gwell gwerthfawrogiad o'r datblygiad arfaethedig yn ei gyd-destun.

**2 FPL/2018/52 - CAIS LLAWN I GODI YSTAFELLOEDD NEWID NEWYDD A THY CLWB AR GYFER CLWB RYGBI CAERGYBI YNG NGHLWB RYGBI CAERGYBI, FFORDD BRYN Y MÔR, Y FALI**

Cyfeiriodd y Cynorthwy-ydd Cynllunio (OWH) at y cais ac fe ddisgrifiodd beth oedd y bwriad yn ei olygu. Roedd yr ymweliad safle yn cael ei gynnal oherwydd pryderon am berthynas y datblygiad ag eiddo preswyl cyfagos.